Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

National Assembly for Wales
Constitutional and Legislative Affairs Committee

Elin Jones AC
Llywydd
Cadeirydd, y Pwyllgor Busnes

24 Mai 2018

Annwyl Lywydd,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 9 Mai 2018 ynghylch maint y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a'r newidiadau sydd eu hangen i'r Rheolau Sefydlog o ganlyniad i'r gwaith craffu ar is-ddeddfwriaeth sy'n deillio o Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael). Fe wnaethom ni drafod y materion a godwyd yn eich llythyr ar 14 a 21 Mai.

Fel yr ydych yn cyfeirio ato yn eich llythyr, mae ein Pwyllgor yn draddodiadol wedi gweithio mewn ffordd amhleidiol, pwynt a nodwyd yn adroddiad etifeddiaeth y Pwyllgor sy'n ein rhagflaenu. Rydym wedi gwneud argymhellion yn rheolaidd ar bob Bil ac wedi adrodd ar rinweddau Offerynnau Statudol heb fod cyfansoddiad y Pwyllgor yn adlewyrchu cydbwysedd pleidiau'r Cynulliad. Mae hyn, yn ein barn ni, wedi dod yn un o gryfderau mawr y Pwyllgor ac mae wedi arwain at welliannau i ddeddfwriaeth yn seiliedig ar egwyddor gyfansoddiadol a deddfwriaethol.

Rydym yn deall ei bod yn debygol y bydd y Bil yn gwneud y broses sifftio ar gyfer Pwyllgor y Cynulliad yn un rwymol, fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor hwn ac fel yr adlewyrchir eisoes yn y Bil ar gyfer Pwyllgorau San Steffan. Rydym hefyd yn deall y bydd y broses yn San Steffan yn cael ei chynnal gan bwyllgor â chydbwysedd gwleidyddol ac y bydd angen ymchwilio i'r goblygiadau cyfansoddiadol a gwleidyddol o ganlyniad.

Er nad ydym yn gwrthwynebu newid mewn egwyddor, rydym yn credu bod angen i'r rhesymau dros newid i faint presennol y Pwyllgor fod yn seiliedig ar resymu cadarn a dealltwriaeth glir o oblygiadau newid o'r fath. Yn hyn o beth, rydym yn gwneud y sylwadau a ganlyn:

- mae maint y Pwyllgor wedi amrywio rhwng pedwar a phum aelod yn y Pumed Cynulliad;
- pan oedd pum aelod, roedd dau aelod annibynnol yn eistedd ar y Pwyllgor;

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565

- rydym yn cydnabod, pan oedd pumed aelod, fod llai o bryderon ynghylch cworwm pan fydd aelodau'n absennol;
- gallai unrhyw newid i chwe aelod neu fwy newid diwylliant y Pwyllgor;
- ni fyddai presenoldeb yn y Pwyllgor yn ddewisol – ni fyddai presenoldeb ad hoc yn dderbyniol;
- cyn symud i bwyllgor mwy o faint, byddai angen ymrwymiad y byddai chwe aelod ar gael i fynychu ein slot reolaidd ar ddydd Llun ac unrhyw slotiau ychwanegol sy'n ofynnol i graffu ar y cynnydd mewn is-ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig â Brexit;
- ni fyddai anghytundeb yn y Pwyllgor, o ba bynnag faint, ynghylch a ddylid atodi'r weithdrefn gadarnhaol i offeryn yn atal Aelod Cynulliad rhag cyflwyno cynnig i ddirymu'r offeryn hwnnw er mwyn hwyluso dadl ar lawr y Siambr;
- mae ein cais (ar 12 Ebrill) i drafod deddfwriaeth sylfaenol yn ymwneud ag un Bil yn unig, sef Bil Deddfwriaeth (Cymru) Llywodraeth Cymru. Rydym yn credu bod y Bil hwn yn ymwneud â materion o egwyddor gyfansoddiadol a deddfwriaethol yn hytrach na materion polisi; serch hynny, rydym yn cydnabod bod y Pwyllgor Busnes wedi mabwysiadu'r egwyddor yn flaenorol, yn y rhan fwyaf o achosion, y dylai pleidleisio ar Filiau mewn pwyllgorau adlewyrchu cydbwysedd gwleidyddol y Cynulliad;
- pe bai gofyn i'r Pwyllgor drafod Bil sy'n ymwneud â diwygio'r Cynulliad, ein disgwyliad yw y byddai cais o'r fath yn ymwneud â Chyfnod 1 yn unig, gan y byddai Cyfnod 2 yn digwydd drwy Bwyllgor y Cynulliad Cyfan; yn hytrach na chynyddu maint ein Pwyllgor at y diben hwn, dull posibl arall fyddai sefydlu pwyllgor newydd ar gyfer Cyfnod 1 yn unig sy'n ymgorffori aelodaeth bresennol y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ond yn cwrdd mewn slot amser gwahanol;
- byddem yn gweld rhinwedd mewn ymchwilio i'r posibilrwydd o gynnal pleidlais wedi'i phwysoli i adlewyrchu cydbwysedd gwleidyddol y Cynulliad, ond rydym yn cydnabod y byddai angen meddwl yn ofalus am hyn oherwydd y gallai gael nifer o sgil-effeithiau, gan gynnwys, ymhlith pethau eraill, (i) nad yw'r holl bleidiau ar hyn o bryd wedi'u cynrychioli ar y Pwyllgor, a (ii) nifer yr Aelodau annibynnol.

Pe bai modd i chi ddarparu mwy o wybodaeth am ba rolau penodol y mae'r Pwyllgor Busnes yn rhagweld y bydd ein Pwyllgor yn ymgymryd â hwy ar ddeddfwriaeth sylfaenol yn

y dyfodol, byddem yn gallu darparu ymateb mwy cynhwysfawr, a hynny cyn gynted â phosibl.

Mae ein gwaith parhaus ar faterion gweithredol sy'n gysylltiedig â Bil yr UE (Ymadael) yn ystyried gweithdrefnau ar gyfer craffu ar is-ddeddfwriaeth, gan gynnwys digonolrwydd ac addasrwydd y Rheolau Sefydlog perthnasol presennol i gyflawni'r newidiadau sydd eu hangen. Ein bwriad yw adrodd ar y materion hyn tua diwedd mis Mehefin. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn debygol o ymdrin â materion eraill sy'n gysylltiedig â'r Bil a'r Cytundeb Rhynglywodraethol, fel hysbysu'r Cynulliad am gamau y mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi'u cymryd mewn meysydd datganoledig, ac ym mha amgylchiadau y rhoddir cydsyniad i Lywodraeth y DU weithredu mewn meysydd datganoledig.

Yn gywir,

Mick Antoniw
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.